DARGANFOD OWRTYN

Y RHWYDWAITH EGLWYS AGORED



EGLWYS SANTES FAIR Y FORWYN

Mae Owrtyn yn fwyaf adnabyddus, efallai, am yr hen goed yw godidog yn y fynwent, un o "Saith Ryfeddod Cymru". Credir bod yr hynaf yn 1500 - 2000 oed.

Mae tŵr yr eglwys yn dyddio o'r 14eg ganrif ac mae ganddi chwe chloch, a chloc gan Joyce o Eglwys Wen sy'n cynnwys eu mecanwaith gollyngiad patent, yn debyg i "Big Ben".

Fwy na thebyg mai'r gwaith cerrig hynaf yw'r groes gylch Normanaidd, a adeiladwyd yng ngholofn orllewinol y corff, ac mae siafft hindreuliedig croes o'r 14eg ganrif yn sefyll o dan un ywen. Mae cist dderw â gwaith haearn trwm yn dyddio, fwy na thebyg, o'r 15fed ganrif.

Yn hynach fyth, ceir croes orymdeithiol Abysinaidd anarferol â chalendr pren mewn llawysgrif Indiaidd, y credir ei bod yn dyddio o'r 6ed ganrif. Trysorau eraill i chwilio amdanynt yw ffenestr ddwyreiniol gan Clayton & Bell a 3 ffenestr Kemp yn yr ale ddeheuol (1890), gyda llofnod "Wheatsheaf" Kemp ar fwcl clogyn y gŵr doeth.

CYFLEUSTERAU:

- Maes Parcio
- Toiledau (Cyhoeddus)

LLEOEDD I YMWELD Â NHW:

- 40 milltir o lwybrau troed wedi'u harwyddo'n dda (taflenni ar gael o lyfrgell Owrtyn)
- Mae lluniaeth ar gael o amrywiol dafarndai'r ardal. Profwch y croeso lleol yn y bwyty pysgod neu Indiaidd
- Mae Bwyty'r Boathouse yn Erbistock gerllaw mewn lleoliad delfrydol
- Maes chwarae i blant yn y pentref â pharcio

Am wybodaeth am fynediad, gweler y dudalen ychwanegol yn y ffolder hwn.

CYSWLLT:
Ffôn: 01978 292015

AMSEROEDD AGOR:
Bob dydd:
8.30am - 5.00pm